RHONDDA CYNON TAF

At sylw: Rhieni/Gwarcheidwaid

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fy Nghyf: My Ref: | GD | Eich Cyf: Your Ref: | | Dyddiad: Date: | 10/2/21 |

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Ar 29 Ionawr, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y byddai cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i groesawu ein disgyblion ieuengaf yn ôl i'n hysgolion cynradd o 22 Chwefror 2021 pe bai nifer yr achosion o'r Coronafeirws yn parhau i ostwng dros yr wythnosau nesaf. Mae'r dystiolaeth feddygol ddiweddaraf yn cefnogi dychwelyd i'r ysgol yn raddol. O ganlyniad i hyn, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg, ar 5 Chwefror 2021, y bydd disgyblion y cyfnod sylfaen yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau hanner tymor.

Mae eich cymorth o ran gwaith dysgu gartref eich plentyn wedi bod yn amhrisiadwy dros y misoedd diwethaf ond mae bellach angen i'ch plentyn/plant ddychwelyd i'r ysgol i fanteisio ar ddysgu wyneb yn wyneb gyda'u cyfoedion fel bod modd iddyn nhw gyrraedd eu potensial academaidd. Yn ôl ymchwil, gall amser i ffwrdd o leoliadau addysg gael effaith niweidiol ar ddatblygiad plentyn ac mae angen eich cymorth o ran galluogi'ch plentyn i ddychwelyd i'r ysgol o 22 Chwefror.

Croesawu disgyblion y cyfnod sylfaen yn ôl i'r ysgol yn ddiogel yw rhan gyntaf y broses o ddychwelyd i'r ysgol. Bydd hyn yn cynnwys plant y dosbarth meithrin, y dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2. Bydd trefniadau dysgu o bell yn parhau ar gyfer pob grŵp oedran arall (blwyddyn 3 ac yn hŷn) fel bod modd lleihau'r risg o drosglwyddo Covid-19 yn y gymuned.

Yn ystod y cyfnod yma, bydd cyfyngiadau lefel rhybudd 4 presennol eraill Llywodraeth Cymru yn parhau i fod ar waith. Y tu allan i oriau'r ysgol, bydd hi'n bwysig i blant a'u teuluoedd barhau i aros gartref gymaint â phosibl, gwneud teithiau hanfodol yn unig a chwrdd â chyn lleied o bobl eraill â phosibl. Mae Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, wedi cynghori'n gryf y dylai teuluoedd barhau i gydymffurfio â'r cyfyngiadau y tu allan i oriau'r ysgol ac osgoi cyswllt cymdeithasol eu plant ag eraill sydd y tu allan i'w haelwyd/swigen gefnogaeth. Wrth gasglu plant o'r ysgol, bydd angen i rieni gadw pellter cymdeithasol (2 fetr) a gwisgo gorchudd wyneb ar safle'r ysgol er mwyn i ni gadw pawb yn ddiogel. Argymhellir i un oedolyn fynd â phlant i'r ysgol a'u casglu er mwyn lleihau'r risg. Bydd cludiant ysgol yn parhau yn ôl yr arfer ar gyfer disgyblion cymwys. Os nad ydych chi'n bwriadu i'ch plentyn/plant ddefnyddio cludiant ysgol, rhowch wybod i'ch ysgol.

**Tŷ Trevithick**
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024

**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

hyderus o ran anabledd | disability confident

Bydd y trefniadau ysgol a dysgu o bell presennol yn parhau i fod ar waith tan wyliau hanner tymor. Ar ôl gwyliau hanner tymor, bydd y trefniadau canlynol yn berthnasol:

- Bydd disgyblion y cyfnod sylfaen pob ysgol yn dechrau dychwelyd i'r ysgol ar 22 Chwefror. Dylai pob plentyn y cyfnod sylfaen fod yn yr ysgol erbyn 26 Chwefror, fan bellaf. Bydd ysgol eich plentyn yn cysylltu â chi maes o law i roi gwybod pa grwpiau blwyddyn fydd yn dychwelyd fesul diwrnod. Bydd modd i blant sy'n gwarchod neu sy ddim yn gallu mynychu'r ysgol gan eu bod yn hunanynysu fanteisio ar gyfleoedd dysgu o bell.

- Bydd pob ysgol, gan gynnwys ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, yn parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu o bell a chymorth lles i bob disgybl ym mlynyddoedd 3-13. Fydd dysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol ddim yn bosibl ar gyfer y grwpiau blwyddyn yma (oni bai eu bod nhw'n gymwys ar gyfer darpariaeth i ddisgyblion sy'n agored i niwed neu blant gweithwyr hanfodol).

- Bydd darpariaeth barhaus i ddisgyblion sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol mewn ysgolion ar ôl gwyliau hanner tymor. Bydd y ddarpariaeth yma ar gael yn ystod oriau craidd yr ysgol.

- Bydd darpariaeth i ddisgyblion sy'n agored i niwed ar gael i ddisgyblion cymwys ym mhob ysgol. Mae hyn yn cynnwys:

  - plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
  - plant sy'n derbyn gofal;
  - plant sy'n gynhalwyr ifainc;
  - plant y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw; neu
  - plant sydd ag anghenion amddiffyn plant.

  Bydd ysgol eich plentyn yn gweithio gyda chi i gadarnhau trefniadau er mwyn i'ch plentyn fanteisio ar ddarpariaeth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a dysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol. Bydd y ddarpariaeth yma ar gael i blant cymwys ym mlwyddyn 3 ac yn hŷn. Bydd plant y cyfnod sylfaen yn mynd i'r ysgol gyda'u cyfoedion felly fydd dim angen y ddarpariaeth yma arnyn nhw.

- Bydd darpariaeth i blant gweithwyr hanfodol yn parhau ar gyfer disgyblion prif ffrwd ym mlynyddoedd 3-8. Mae modd i ddisgyblion ym mlynyddoedd 7-11 sy'n manteisio ar ddarpariaeth cynnal dysgu mewn ysgolion uwchradd a disgyblion ysgolion arbennig ym mlynyddoedd 3-13 barhau i fanteisio ar ddarpariaeth i blant gweithwyr hanfodol.

  Yn Rhondda Cynon Taf, bydd y grwpiau proffesiynol canlynol yn cael eu blaenoriaethu yn y lle cyntaf ar gyfer darpariaeth i blant gweithwyr hanfodol:

  - Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
  - Gweithwyr ym maes diogelwch y cyhoedd (gweithwyr brys) a gweithwyr diogelwch cenedlaethol
  - Gweithwyr ym maes addysg a gofal plant
  - Gweithwyr ym maes bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill

  Os bydd digon o le, bydd sylw dyledus yn cael ei roi i restr ehangach Llywodraeth Cymru o weithwyr hanfodol. Mae rhagor o fanylion o ran diffiniadau gweithwyr hanfodol

ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol: https://llyw.cymru/adnabod-plant-gweithwyr-hanfodol-canllawiau.

Peidiwch â gwneud cais am y ddarpariaeth yma oni bai bod eich gwaith yn hanfodol mewn perthynas â'r ymateb i Covid-19, eich bod wedi bodloni'r meini prawf a bod disgwyl i chi weithio a'ch bod chi wedi ceisio pob opsiwn arall o ran gofal plant. Bydd ysgolion yn rhoi gwybod i chi'n uniongyrchol am y ddarpariaeth sydd gyda nhw ar waith. Anfonwch unrhyw ymholiadau o ran y ddarpariaeth yma at yr ysgol, nid yr awdurdod lleol. Fydd dim darpariaeth i blant gweithwyr hanfodol ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen gan y byddan nhw'n mynychu'r ysgol.

- Bydd darpariaeth clybiau brecwast ar gael ym mhob ysgol gynradd. Bydd y lleoedd ar gael i ddisgyblion y cyfnod sylfaen a oedd wedi llwyddo i gael lle mewn clwb brecwast ar gyfer tymor y gwanwyn, a disgyblion sy'n manteisio ar ddarpariaeth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol ar safle'r ysgol. Serch hynny, os bydd y galw yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ymgeiswyr y cyfnod sylfaen yn gyntaf, yna disgyblion sy'n agored i niwed ac yna plant gweithwyr hanfodol. Yn anffodus, does dim modd gwarantu lleoedd a bydd hyn yn amodol ar nifer y lleoedd sy ar gael. Bydd raid i'r holl blant aros gyda'u grwpiau blwyddyn penodol yn y clwb brecwast.

- Bydd gwasanaeth arlwyo prydau ysgol ar gael yn ôl yr arfer ar gyfer rhieni sy'n dewis prynu cinio ysgol.

- Bydd taliadau prydau ysgol am ddim yn parhau ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen tan 26 Chwefror. Bydd y taliadau yn dod i ben ar ôl y dyddiad yma. Bydd plant sy'n cael eu haddysg ar safle'r ysgol ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael cinio yn yr ysgol. Bydd yr holl blant sy'n dysgu o bell gartref o ganlyniad i'r trefniadau presennol, neu sy'n hunanynysu neu'n gwarchod oherwydd Covid-19 yn parhau i gael taliadau BACS, sef £19.50 yr wythnos, os ydyn nhw'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sicrhau bod cyllid ar gael, £19.50 yr wythnos fesul disgybl, i wneud yn siŵr bod darpariaeth prydau ysgol am ddim ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol, hyd at ddiwedd gwyliau'r Pasg, 2021. Anfonwch unrhyw ymholiadau o ran y mater yma at ysgol eich plentyn.

Diolch eto i chi am eich gwaith caled o ran cefnogi'ch plentyn i ddysgu gartref. Rwy'n gwerthfawrogi bod y cyfnod yma wedi bod yn heriol iawn. Rwy'n siŵr y byddwch chi'n gwerthfawrogi'r ymdrech wych wedi'i gwneud gan staff ein hysgolion i ddarparu gwersi o bell ar gyfer eich plentyn, a hynny ochr yn ochr â darparu gwersi wyneb yn wyneb yn yr ysgol. Bydden ni'n gwerthfawrogi'ch barn ar gynnig dysgu o bell eich plentyn. Mae'r arolwg yn fyw ar hyn o bryd er mwyn i chi gyflwyno'ch sylwadau. Dyma'r ddolen:
https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/EmergenciesSafetyandCrime/InformationforResidentsCoronavirus/NEWCoronavirusCOVID19latestinformation/Schoolreturn/SchoolReturnInformationandadvice.aspx

Bydd yr arolwg yn dod i ben ar 13 Chwefror.

Dyma obeithio bod y neges yma'n amlinellu'r trefniadau ar ôl gwyliau hanner tymor.  Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan y Cyngor.

Dymuniadau gorau i chi. Mwynhewch eich gwyliau hanner tymor.

Diolch yn fawr,

**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

RHONDDA CYNON TAF

To: Parents/Carers

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fy nghyf:<br>My Ref: | GD | Eich Cyf:<br>Your Ref: | | Dyddiad:<br>Date: | 10/2/21 |

Dear Parent/Carer,

On the 29th of January, the First Minister announced that if the number of coronavirus cases continued to fall over the following weeks that plans would be put in place to return our youngest learners in our primary schools back to school from the 22nd of February 2021. The most recently published medical evidence supports the phased return of learners back into school and as a result the Education Minister confirmed on the 5th of February 2021 that foundation phase learners are set to return to school after the half-term break.

Your support with your child's home learning has been invaluable in recent months but a return to school is now required to enable your child/ren to benefit from much needed face to face learning with their peers so that they can reach their academic potential. Research tells us that time spent out of education settings can impact adversely on a child's development, and your support in enabling your child to return to school from the 22nd of February is now needed.

The safe return of foundation phase learners is the first part of the return of learners to schools. This will include children in nursery, reception, year 1 and year 2. Remote learning will continue for all other age groups (years 3 upwards) so that the risks of transmitting Covid-19 in the community can be minimised.

During this transitional period, the other current Welsh Government Restrictions for alert level 4 will continue to remain in place. Outside of school it will be important that children and their families continue to stay at home as much as possible, engage in essential travel only and limit their contact with others. Kirsty Williams, the Education Minister, has strongly advised that families continue to comply with the restrictions outside of school and that families avoid children's social contact with others outside of their family bubble. When collecting children from school, parents will need to keep to 2m social distancing and wear face coverings on school grounds so that we keep everyone safe. Only one adult taking children to and from school is recommended to minimise risks. School transport will be run as normal for entitled pupils and if you are not intending to use school transport for your child/ren please can you notify your school.

**Tŷ Trevithick**
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024

**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

The current school and remote learning arrangements will continue until half-term. After the half-term break the following arrangements will apply:

- Foundation phase learners in all school settings will start to return to school on the 22nd of February. All foundation phase children should be in school by the 26th of February at the latest. You child's school will contact you shortly to tell you which year groups will be returning on which day. Children that are shielding or are unable to attend school due self-isolation will be able to access remote learning opportunities.

- All schools, including mainstream and special schools, and pupil referral units, will continue to provide remote learning opportunities and wellbeing support for all learners in years 3 to 13 as face to face learning in school will not be possible for these year groups (unless they are eligible for vulnerable learner or critical worker provision).

- There will be continued provision for vulnerable learners and the children of critical workers on school sites after the half-term break. This provision will be during core school hours.

- Vulnerable learner provision will be made for eligible children in all school settings. Eligible children include children:

  - that have additional learning needs;
  - are looked after;
  - are young carers;
  - are in need of care and support; or
  - with child protection needs.

  Your child's school will work with you to confirm arrangements for your child's access to vulnerable learner provision and face to face learning in school. This provision will be available for eligible children in years 3 and above. Children in the foundation phase will access school with their peers and will not require this provision.

- Critical worker provision will continue for mainstream learners in years 3 to 8. Learners in years 7 to 11 accessing learning support class provision in secondary schools and learners in years 3 to 13 in special schools can continue accessing critical worker provision.

  In Rhondda Cynon Taf the following professional groups will be prioritised in the first instance for critical worker provision:

  - Health and social care workers
  - Public safety (emergency workers) and national security workers
  - Education and childcare workers
  - Food and other necessary goods workers.

  If space allows, due regard will also be made of the Welsh Government's wider list of critical workers. Further detail regarding critical worker definitions is provided via the following link: https://gov.wales/identifying-children-critical-workers-guidance.

Please only apply for this provision if your work is critical to the Covid-19 response, you clearly meet eligibility and are scheduled to work and have exhausted all possible childcare avenues. All schools will notify you directly of the provision that they have in place. Can you please direct any queries relating to this provision to the school and not to the local authority. There will be no critical worker provision for foundation phase learners as they will be attending school.

- Breakfast club provision will be made available in all primary school settings. These places will be made available to foundation phase learners who were previously successful in obtaining a breakfast club place for the spring term and learners accessing vulnerable learner and critical worker provision on school sites. However, if demand exceeds supply first priority will be given to foundation phase applicants, followed by vulnerable learners and then the children of critical workers. Unfortunately, places cannot be guaranteed and will be subject to availability. All children will have to remain in their allocated year groups in breakfast clubs.

- Catering for school meals will be available on site as normal for parents who choose to purchase a school lunch.

- Free school meal payments will continue to be made for learners in the foundation phase until the 26th of February only and these payments will cease after this date. Children accessing education on school sites who are eligible for free school meals will receive lunch at their school. All children accessing distance learning at home due to current arrangements or who are self-isolating or shielding due to Covid-19 will continue to access BACs payments at a rate of £19.50 per week if they are eligible for free school meals. The Welsh Government has also made available funding at the rate of £19.50 per week per learner to make free school meal provision available during school holidays, up to and including Easter 2021. Please direct any queries relating to this matter to your child's school.

Can I thank you again for all of your hard work in supporting your child's learning at home. I appreciate that these have been very challenging times. I am sure you will appreciate the tremendous efforts made by our school staff to deliver remote learning for your child whilst also providing face to face learning on school sites. Your views on your child's remote learning offer would be appreciated and a survey is currently live to capture your views. The link can be found at:
https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/EmergenciesSafetyandCrime/InformationforResidentsCoronavirus/NEWCoronavirusCOVID19latestinformation/Schoolreturn/Schoolslatest.aspx

The survey will close on the 13th of February.

I hope this outlines current arrangements after the half-term break. Further information can also be found on the Council's website.

Best wishes for a restful half-term break to you all.

Many thanks,

Gaynor Davies

**Gaynor Davies**
**Director of Education and Inclusion Services**